Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Y Tymbl

**Heol Y Neuadd**
**Y Tymbl**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6HR**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Tymbl

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Y Tymbl |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 140 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 98 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 23.8% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 28.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 12.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2016 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 12/11/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Y Tymbl yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn barchus. Maent yn dangos gofal tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd bositif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd hynod gadarn o’u mannau cychwyn. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn hyderus i siarad Cymraeg yn ddigon rhugl gyda’i gilydd nac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn dda erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r diwylliant darllen yn annog mwyafrif y disgyblion i fwynhau a gwneud cynnydd yn eu medrau darllen. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn hynod effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a’i ddathlu’n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae’r staff wedi datblygu cwricwlwm eang a ddiddorol sy’n datblygu gwybodaeth disgyblion am y meysydd dysgu a phrofiad yn effeithiol. Trwy hyn, mae disgyblion yn hyderus eu gwybodaeth am hanesion a thraddodiadau lleol. Mae disgwyliadau uchel athrawon yn cefnogi disgyblion i gyflawni gwaith i safon uchel ac i gyflwyno’r gwaith yn gywrain a thaclus. Mae’r staff yn adnabod anghenion pob disgybl yn arbennig o dda, gan deilwra’r gefnogaeth ddysgu yn sensitif pan fydd yn berthnasol.

Mae Ysgol Gynradd Y Tymbl wedi ei ffedereiddio gydag Ysgol Llechyfedach. Mae’r pennaeth, sy’n gweithio ar draws y ddau safle, wedi datblygu tîm o staff sy’n angerddol a chydwybodol. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus i rannu’r arfer orau ar draws y ddwy ysgol er mwyn darparu addysg gyffrous a diddorol i bob disgybl. Er bod y ddwy ysgol yn cydweithio’n agos, er enghraifft wrth rannu teithiau addysgol ac arbenigedd staff, maent wedi llwyddo i feithrin a chynnal eu hunaniaeth unigryw eu hunain.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi disgyblion i fwynhau a gwneud cynnydd yn eu medrau darllen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd hynod gadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn llwyddiannus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd gwahanol yn gyson mewn cyd-destunau dysgu sy'n aml wedi eu sylfaenu ar hanes a thraddodiadau lleol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion ac yn dangos parch at farn bobl eraill. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau siarad Cymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i siarad wrth fwynhau eu dysgu. Er enghraifft, maent yn sgwrsio'n hapus wrth gynnal arbrawf i weld pa ddefnydd sydd orau ar gyfer cot law Alffi. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn datblygu eu geirfa a'u defnydd o batrymau yn addas. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad a digidol yn effeithiol wrth gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth ddatblygu geirfa benodol am nodweddion deunyddiau yn eu gwaith gwyddoniaeth. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn magu digon o hyder i siarad yn ddigon rhugl gyda'i gilydd ac oedolion. Mae hyn yn llesteirio eu gallu i ddatblygu geirfa a phatrymau yn adeiladol, yn enwedig yn y Gymraeg, wrth fynegi eu hunain mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dwysáu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o dechnegau darllen. Er enghraifft, maent yn ymgolli'n llwyr wrth wrando, darllen ac ail-ddweud stori Santes Dwynwen. Wrth i'w medrau ddatblygu, mae mwyafrif yn gwneud cynnydd cyson ac yn darllen llyfrau sy'n ennyn eu diddordeb yn briodol. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio eu huwch fedrau darllen yn fuddiol, er enghraifft wrth gywain a chasglu gwybodaeth er mwyn creu sgript am streic y glowyr yn 1984. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon cadarn yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae'r arlwy darllen yn gyfyng ac nid yw'r diwylliant yn annog mwyafrif y disgyblion i fwynhau darllen yn annibynnol. O ganlyniad, mae hyn yn arafu eu cynnydd i ddarllen yn ymestynnol mewn ystod gyfoethog o gyd-destunau dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr mewn ystod dda o brofiadau ac yn ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio draenog. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n gynyddol gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu am oleuadau'r Nadolig. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa ac ymadroddion diddorol wrth gyfansoddi ystod o farddoniaeth greadigol. Ar frig yr ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ac maent yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn datblygu eu geirfa'n llwyddiannus wrth ysgrifennu erthygl am drychineb

Aberfan. Mae disgwyliadau uchel athrawon yn cefnogi disgyblion i gyflawni gwaith i safon dda ac i gyflwyno'r gwaith yn gywrain a thaclus.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer yn cyfrif ymlaen ac yn ôl hyd at 10 yn hyderus ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o werth lle yn fedrus. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae ganddynt afael gadarn o ystod dda o fedrau mathemateg ac maent yn eu datblygu'n systematig. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn amcangyfrif a mesur pellter o bentref Y Tymbl i wahanol drefi yng Nghymru gyda lefel dda o gywirdeb. Mae'r disgyblion hynaf yn cael eu herio'n gyson i ddefnyddio eu medrau rhifedd yn fedrus mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n effeithiol wrth gyfrifo cost adnoddau ac elw gwerthiant fel rhan o'u menter i greu pabïau coch wrth godi arian i elusen fel rhan o'u gwaith am yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol mewn gweithgareddau diddorol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio technoleg er mwyn cefnogi eu medrau llythrennedd a rhifedd. Wrth i fedrau disgyblion ddatblygu, mae llawer yn cynnwys lluniau a thestunau ac yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol yn fedrus, er enghraifft wrth greu hysbyseb am fwydydd iach. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn  defnyddio meddalwedd yn effeithiol i ychwanegu troslais a cherddoriaeth at ddelwedd yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd. Maent yn golygu'r gwaith creadigol i gyflwyniad rhyngweithiol yn gelfydd er mwyn ymateb i anghenion y gynulleidfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn hynod effeithiol a chaiff eu gwaith ei ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr amgylchedd dysgu. Maent yn ymgolli mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n eu hannog i ddatblygu eu medrau yn ehangach, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 berfformio darn o gerddoriaeth wrth ddilyn sgôr graffig am dân gwyllt. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau celf yn fedrus gan ychwanegu manylder perthnasol wrth efelychu gwaith artistiaid o Gymru. Caiff disgyblion gyfle i gystadlu'n  flynyddol mewn amrywiaeth o gystadlaethau Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth eu bodd yn yr ysgol ac yn teimlo'n hapus oddi fewn i'r naws gynhwysol, gartrefol a gofalgar sy'n bodoli. Mae bron bob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i fynegi sut maent yn teimlo, i esbonio beth sy'n bwysig iddynt ac i ddisgrifio sut gall oedolion yr ysgol eu cefnogi a'u helpu i ddysgu. Mae gan lawer o ddisgyblion yr ysgol ymwybyddiaeth gadarn o'r byd digidol a sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar draws yr ysgol ac maent yn deall pwysigrwydd parchu rheolau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu hymddygiad o ddydd i ddydd. Maent yn gwrtais ac ystyriol o eraill ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr â'r ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion moesol, gwybodus a chyfrifol sy'n deall sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar eraill.

Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill, er enghraifft wrth adeiladu lloches fel rhan o thema'r Ail Ryfel Byd. Maent yn

ddysgwyr brwdfrydig sy’n hapus i roi cynnig ar dasgau, yn deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau a’i fod yn rhan bwysig o’r broses ddysgu. Mae’r rhan fwyaf yn ymwybodol o’u targedau ar gyfer gwella ac yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth gwblhau eu tasgau dyddiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn esbonio agweddau penodol o’u hysgrifennu y mae angen iddynt eu datblygu ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wella eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau a chyflwyniadau ac yn canolbwyntio’n  llwyddiannus am gyfnodau estynedig. Yn gyffredinol, mae disgyblion o bob oed a gallu yn arddangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn ymroi’n frwdfrydig i’w tasgau wrth ymdrin â heriau a datrys problemau. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau mentergarwch yn llwyddiannus wrth iddynt gynllunio, coginio a gwerthu eu cynnyrch fel rhan o’u thema ‘Cadw’n Iach a Heini’. O ganlyniad, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy’n dangos hyder wrth ddewis tasgau yn annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyfoethog a diddorol. Maent yn cynnig syniadau i’w cynnwys yn eu themâu, ac yn trafod yn synhwyrol gyda’u hathrawon. Maent yn gwerthfawrogi bod athrawon yn gwrando ar eu barn yn y dosbarthiadau ac yn cynnwys eu syniadau wrth gynllunio. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â bwyta ac yfed a gweithgarwch corfforol. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth ymgymryd yn frwdfrydig ag ystod o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi ac ar ôl ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles meddyliol ac yn datblygu strategaethau effeithiol i’w helpu os ydynt yn bryderus.

Mae llais disgyblion yn datblygu’n effeithiol ac maent yn dechrau dylanwadu’n fuddiol ar benderfyniadau’r ysgol. Mae’r disgyblion hynaf, er enghraifft, yn cyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol wrth gynnal siop dros dro i werthu blodau haul er mwyn casglu arian i Apêl yr Wcrain. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu’n gyson tuag at elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. Yn ogystal, mae disgyblion y Pwyllgor Eco yn datblygu ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd a sut gallant helpu i ofalu am eu byd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a difyr ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n llawn â’u dysgu. Mae arweinwyr ac athrawon yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn llwyddiannus gan gynnwys disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol a rhai sy’n dod o gartrefi difreintiedig.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gadarn ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru. Mae gweithgorau defnyddiol, yn cynnwys staff y ddwy ysgol, yn cydweithio’n agos er mwyn rhannu arbenigedd, datblygu eu cynlluniau a diwallu anghenion disgyblion. Mae adnoddau gwerthfawr fel ‘y cwpwrdd,’ sef lleoliad rhithiol lle mae amrediad cyfoethog o ddogfennau cynllunio yn cael eu lleoli, yn hyrwyddo’r cydweithio yn llwyddiannus. Mae defnydd o gynlluniau effeithiol i hyrwyddo Cymraeg llafar disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu hyder wrth ddefnyddio’r iaith mewn gwahanol gyd destunau. Mae arweinwyr wedi creu cynllun defnyddiol

‘pen-i-gamp’ sy’n amlinellu technegau a gweithgareddau i’r staff eu defnyddio wrth gefnogi medrau rhifedd disgyblion.

Mae’r cwricwlwm yn darparu cydbwysedd diddorol o brofiadau dysgu, sy’n datblygu medrau disgyblion yn gyson ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae athrawon a chynorthwywyr y disgyblion ieuengaf yn sicrhau bod profiadau dysgu effeithiol yn cael eu hymgorffori’n fedrus yn yr ardaloedd dysgu o fewn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan.

Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion yn gadarn, ac mae llawer yn gwneud cynnydd pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw’r amgylchedd darllen a’r ystod o destunau yn cefnogi mwynhad a chynnydd lleiafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau darllen.

Ar draws y ffederasiwn, mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn gwrando ar syniadau’r disgyblion gan gydweithio i’w hymgorffori yn eu gwaith. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion awgrymu’r cyfeiriad nesaf yr hoffent ei ddilyn wrth weithio ar wahanol themâu eang a diddorol.

Mae’r ddwy ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus wrth ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes, diwylliant a thraddodiadau’r ardal, gan weld ardal y Tymbl a Llechyfedach mewn cyd-destun ehangach. Mae’r cydweithio fel ffederasiwn yn hyrwyddo hyn yn llwyddiannus, er enghraifft gan ddefnyddio enwau lleoedd cyfarwydd, fel y Mynydd Mawr a’r Gors ar y dosbarthiadau. Enghraifft nodedig o weithgaredd sy’n gynhenid i’r ardal leol yw’r gwaith ysgrifennu teimladwy gan Flwyddyn 5 a 6 yn trafod plant fu’n gweithio yn y pyllau glo ers talwm. Bu’r disgyblion hynaf hefyd yn dysgu am Jac Tŷ Isha, sef cymeriad lleol a gafodd ei alltudio i Awstralia yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae’r profiadau dysgu hyn yn hybu balchder disgyblion y Tymbl o’u treftadaeth a’u milltir sgwâr.

Mae perthynas weithio agos a hynod gefnogol ar draws holl ddosbarthiadau’r ysgol. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda iawn ac yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo’n ddiogel a hapus yn eu dosbarthiadau. Ar draws ysgolion y ffederasiwn, mae athrawon yn holi’n gelfydd, gan annog y disgyblion ymlaen yn eu dysgu, a phrofi eu dealltwriaeth. Mae nodau dysgu yn cael eu trafod a’u rhannu’n fedrus â disgyblion yn unol ag oedran a gallu. Mae perthynas weithio agos iawn rhwng y disgyblion a’r athrawon ac mae’r disgyblion yn deall pwysigrwydd rôl adborth wrth iddynt ddatblygu eu gwaith. Mae gweithdrefnau da wedi eu sefydlu gyda chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gynnig adborth i’w partner, cyn i’r athro gynnig adborth ysgrifenedig cryno a defnyddiol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hynaf afael dda ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Caiff gwybodaeth berthnasol am gynnydd a lles disgyblion ei rhannu’n fuddiol â rhieni.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae’r athrawon yn darparu amrediad effeithiol o weithgareddau. Yn aml, mae’r gweithgareddau wedi eu graddoli gyda chefnogaeth mewn camau mwy strwythuredig ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i’r disgyblion gynnig syniadau ynglŷn â’r cyfeiriad yr hoffent ei gymryd yn eu dysgu, er enghraifft wrth osod cyd-destun penodol ar gyfer cyflawni tasgau penodol.

Mae’r gweithgareddau ar ffurf tasgau cyfoethog yn caniatáu i’r staff a’r disgyblion ddod â gwahanol elfennau o’r meysydd dysgu a phrofiad at ei gilydd. Er enghraifft,

mae prosiect meddwl iach a chadw'n heini fel 'Shwmae ffres,' yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ddatblygu medrau entrepreneuraidd yn fedrus, gan gynnwys cymharu costau ag elw. Mae'r athrawon yn rhannu'r wybodaeth ar wefannau cymdeithasol diogel yr ysgol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwaith yn lleol. Mae'r tasgau ymestynnol 'datrys mewn deg' yn hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr ac athrawon yn datblygu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'r dull mwyaf effeithiol o gyflawni tasg mewn cyd-destunau penodol. Er enghraifft, yn sgil ymweliad addysgol, roedd disgyblion yn dewis sut y bydden nhw'n hoffi crynhoi eu hymateb i'r daith. Penderfynodd rhai disgyblion ddefnyddio offer cyfrifiadurol i greu clip ffilm, gydag eraill yn penderfynu defnyddio ffurf cartŵn i fynegi eu barn am yr ymweliad.  Mae'r gweithgareddau hyn yn hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r perthnasoedd cefnogol sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gadarn at greu cymuned ofalgar, gydag ethos tawel a chartrefol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn helaeth i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae agweddau positif y staff a'r awyrgylch gadarnhaol ym mhob dosbarth yn cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a datblygu eu medrau annibyniaeth a chreadigrwydd yn fuddiol. Mae hyn yn annog disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r athrawon yn dilyn trefniadau sefydlog, fel y trosolwg dosbarth, sy'n ddull o greu darlun cynhwysfawr am ddisgyblion unigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio proffiliau un tudalen ar flaen llyfrau gwaith disgyblion er mwyn datblygu dealltwriaeth gadarn o anghenion pob disgybl. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cydweithio'n hynod effeithiol â swyddogion yr awdurdod lleol. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr i staff i ddeall eu rolau'n  llawn wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol i wneud cynnydd da yn erbyn eu targedau cymorth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth effeithlon a chynhwysol i ddarparu a gweithredu targedau cymorth bwriadus i wella dysgu'r disgyblion a'u medrau personol a chymdeithasol.

Mae'r rhaglenni cymorth i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion yn gynhwysfawr, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwd i'r gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth bellach yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau cefnogi, sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, yn effeithiol, ac maent yn annog bron bob disgybl i fynegi eu teimladau. Mae dathliadau "Fi yw Fi" yn cyfoethogi hunan-barch disgyblion ac yn eu galluogi i rannu eu teimladau ag eraill yn llwyddiannus. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn fedrus.

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o deithiau ac ymweliadau buddiol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn ymweld â'r ardal leol sy'n ennyn a

chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn ymweld â’r cigydd lleol er mwyn dysgu am y galon ac i brynu nwyddau er mwyn creu pitsa.

Mae gwasanaethau ysgol yn cyfrannu’n gadarn at ddatblygu agweddau moesol ac ysbrydol disgyblion, er enghraifft wrth i ddisgyblion ddysgu am grefyddau amrywiol. Mae’r gweithgareddau amrywiol i gefnogi lles emosiynol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion gymryd rhan mewn helfa drysor eu synhwyrau yn yr awyr agored. Mae gwaith ysgrifenedig am fwlio, trafodaethau COP 26 a gwaith ymchwil am gydraddoldeb yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd yr ysgol fel hapusrwydd, parch a chyfrifoldeb. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol i feithrin dealltwriaeth disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Mae cyfleoedd i feithrin medrau arwain disgyblion yn datblygu’n briodol.

Caiff cyfleoedd cyfoethog eu darparu i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, sy’n cynnwys gwaith ymchwil ar darddiad enwau ardaloedd lleol. Mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau’n fedrus, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gynnal gwaith ymchwil am Betty Campbell. Mae cysylltiad yr ysgol â phlentyn ym Mrasil yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion archwilio materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cenedlaethol a rhyngwladol. Elfen gadarnhaol o'r gwersi hyn yw safon uchel yr holi sy’n annog trafodaethau deallus gan ddisgyblion. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn ymchwilio i’r swyddi sydd ar gael i ddynion a merched gan gymharu cyflogau ar draws y byd. O ganlyniad, mae medrau meddwl y disgyblion yn datblygu’n dda wrth iddynt ganfod mwy am y pwnc dan sylw.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth gadarn ar gyfer y ffederasiwn sydd wedi ei seilio ar greu awyrgylch hapus a chynhwysol sy’n hybu datblygiad medrau a lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol pob disgybl i’r eithaf. Mae’r weledigaeth wedi ei rhannu’n effeithiol ar draws y ddwy ysgol gyda’r staff cyfan yn angerddol wrth ddarparu cyfleoedd cyffrous a diddorol i ddisgyblion. Cryfder nodedig y ffederasiwn yw’r ffordd mae’r staff yn cydweithio â’i gilydd yn rheolaidd er mwyn rhannu arfer dda a dysgu gyda, a gan, ei gilydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn derbyn profiadau tebyg o fewn yr un ethos cynhaliol a gofalgar. Nodwedd amlwg yn yr ysgolion yw bod arweinwyr a staff yn llwyddo i feithrin a chynnal hunaniaeth unigryw’r ddwy ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o’i hun, staff a’r disgyblion ac maent yn annog yr holl ddisgyblion i fwynhau eu dysgu mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwrtais a chroesawgar ac yn ymdrechu o’u gorau wrth ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r pennaeth wedi sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwerthuso cynnydd disgyblion a’r ddarpariaeth. Mae gan arweinwyr amserlen glir a manwl sy’n arwain gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau monitro priodol y mae arweinwyr ac athrawon yn eu gweithredu’n gydwybodol. Mae’r adroddiadau monitro yn fanwl ac yn adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen sylw yn gywir. Mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau’r gweithgareddau hyn yn effeithiol i bennu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwelliant.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ffederasiwn ers iddynt sefydlu fel un corff unedig. Er nad yw'r llywodraethwyr wedi ailgydio'n llwyr â'u gweithgareddau arferol o ran hunanwerthuso yn dilyn y pandemig, fel teithiau dysgu, maent yn parhau'n wybodus iawn am brif faterion yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth fuddiol gan arweinwyr am fywyd a gwaith y ffederasiwn, sy'n atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Mae ganddynt afael drylwyr ar gynnydd disgyblion a'r ddarpariaeth sydd wedi ei sefydlu i gefnogi agweddau sydd angen eu gwella. Er enghraifft, maent yn llwyr ymwybodol o effaith y cyfnod clo yn ystod y pandemig ar les emosiynol a medrau ieithyddol y disgyblion, a'r rhaglenni cefnogi a'r cynlluniau ieithyddol sydd wedi eu datblygu i adfer hyn. Maent yn herio'r staff am gynnydd y disgyblion a llwyddiant y ddarpariaeth yn rheolaidd. Maent yn adnabod manteision a buddion bod mewn ffederasiwn, gan wneud penderfyniadau ar gyfer y ddwy ysgol yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r cyllid yn ofalus gan drefnu adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ac mae digon o offer safonol i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae ardaloedd tu allan i ddosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf ac o gwmpas yr ysgol, fel y 'Sgubor Sgiliau' a'r 'Cartws', yn ardaloedd ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r nifer o grantiau gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i gynnal rhaglenni cefnogi ac i gynnal grwpiau lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwy parod i ymgymryd â thasgau o fewn y dosbarthiadau a thu hwnt.

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn effeithiol. Mae cynorthwywyr yn rhan o'r broses drwy drafod eu hanghenion â'r athro dosbarth a'r penaethiaid cynorthwyol. Golyga hyn fod ganddynt dargedau pwrpasol a chyfleoedd i gael hyfforddiant sy'n gymorth iddynt wrth weithio â'r disgyblion, er enghraifft wrth gyflwyno gweithgareddau'r cynllun rhifedd pen.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson ar gael i staff, sy'n cysylltu'n agos â'u hanghenion proffesiynol personol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau a chynorthwyo ei gilydd, er enghraifft trwy ddarparu cyflwyniadau byr am arferion addysgu effeithiol. O ganlyniad, mae ethos hynod effeithiol o gydweithio rhwng y ddwy ysgol, sy'n cyfrannu'n gynhyrchiol at yr ymdeimlad cryf o waith tîm sy'n bodoli o fewn y ffederasiwn. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos â rhwydwaith o ysgolion eraill sydd wedi eu ffedereiddio. Mae hyn yn darparu cyfleoedd bwriadus iddynt rannu a dysgu o arferion llwyddiannus rhwng ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi magu perthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn gwerthfawrogi bod staff yn groesawgar a bod cydweithio effeithlon rhwng yr ysgol a'r cartref, er enghraifft wrth i riant gefnogi'r teuluoedd gyda'u medrau digidol yn ystod y cyfnodau clo. Yn ddiweddar, mae'r staff wedi cynnal bore coffi i gynorthwyo rhieni wrth iddynt gefnogi eu plant â gwaith iaith a rhif gartref.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022